MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol**

# Adroddiad Blynyddol ar 'Y Gwasanaethau Cymdeithasol'

2013 / 2014

**Mae'r Adroddiad hwn ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.**

**Ebost: ACRF@merthyr.gov.uk**
**Ffôn: (01685) 724693**

# Mynegai


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Croeso gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol | *2 - 3* |
| 2. | Diogelu Plant ac Oedolion | *4 - 9* |
| 3. | Gwasanaethau i Oedolion | *10 - 18* |
| 4. | Gwasanaethau i Blant a'u Teuluoedd | *19 – 29* |
| 5. | Sut i gael rhagor o wybodaeth | *30* |

# Croeso i fy adroddiad blynyddol ar y gwasanaethau cymdeithasol ym Merthyr Tudful

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol y Cyngor, rhan o'm swydd i yw adrodd i chi bob blwyddyn ar ba mor dda yr wyf yn credu y mae Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn gweithio.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym Merthyr Tudful yn anelu at ddarparu ystod o wasanaethau sy'n ymatebol ac wedi eu cydlynu'n dda i ddiogelu a rhoi cymorth i'r boblogaeth gyfan a phobl agored i niwed yn arbennig.

Fel cyfarwyddiaeth rydym yn anelu at gefnogi'r Cyngor wrth iddo gyflenwi ei flaenoriaethau trwy helpu pobl ym Merthyr Tudful i wneud y mwyaf o'u potensial, bod yn rhydd rhag tlodi, yn annibynnol ac iach, ac i fyw mewn cymunedau cefnogol a chryf. Mae hyn yn gyson gyda'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Merthyr Tudful 2013 / 2017 (ceir manylion yn hwyrach yn yr adroddiad hwn); ac mae'n arbennig o bwysig yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Rwy'n falch o allu adrodd yn 2013 / 2014 bod arolygwyr yn dal i deimlo bod ein rheolaeth o'ch gwasanaethau yn dda, a'n bod wedi parhau i ganolbwyntio ar wella cyflenwad ein gwasanaethau rheng flaen. Gwnaeth yr arolygwyr sylwadau cadarnhaol hefyd am y ffordd yr ydym yn comisiynu gwasanaethau ar eich rhan, yn dilyn eu hadolygiad yn Ionawr 2014.

Ar y cyfan, mae ein perfformiad yn 2013/2014 wedi parhau i fod yn dda yn gyffredinol. Mae rhai o'n cyflawniadau'n cynnwys:

- Cynnal perfformiad uchel iawn yn y dangosyddion perfformiad diogelu cenedlaethol, ac yn gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Rydym wedi parhau i sicrhau bod diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i GBS Merthyr Tudful (fel sy'n cael ei nodi yn y Cynllun Integredig Sengl a gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Lleol).
- Agoriad ein dau gartref gofal newydd.
- Llwyddiant parhaol ein Gwasanaethau Ymateb Cychwynnol ac Ail4alluogi.
- Lansiad y gwasanaeth Plentyn mewn Angen newydd gwell sy'n gweithredu o Ganolfan Deuluol Gellideg.
- Llwyddiant parhaol yn recriwtio Gofalwyr Maeth newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Fframwaith Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Iaith Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol o'r enw “Mwy na Geiriau”. Mae'r fframwaith yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r hyn sydd ei angen i wella gwasanaethau i'r rhai sydd angen neu'n dewis derbyn eu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynlluniau gweithredu cefnogol wedi eu datblygu sy'n rhoi manylion y camau sydd angen eu cymryd i gryfhau gwasanaethau Iaith Gymraeg. Yn fy rôl fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus, mae gen i ran allweddol i'w chwarae yn y fenter bwysig hon trwy sicrhau ein bod yn cyfrannu'n effeithiol at yr amcanion a amlinellir yn y fframwaith.

Fel yr holl wasanaethau cyhoeddus, rydym yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Er ei bod yn amhosib, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, i gynnal lefelau gwario presennol, mae pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio lleihau effaith y sefyllfa ariannol bresennol ar y gwasanaethau mwyaf hanfodol yr ydym yn eu darparu ac i ganfod yr angen i fynd i'r afael â

phwysau demograffig ble'n bosib. Er mwyn parhau i gwrdd ag anghenion ein cymuned bydd angen i ni barhau i drawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r heriau a nodir yn y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles. Bydd hyn yn golygu bod angen i ni, nid yn unig i wneud pethau'n wahanol ond i wneud pethau gwahanol ac o ganlyniad peidio â gwneud rhai pethau. Wrth symud ymlaen byddwn yn parhau i yrru blaenoriaethau'r Cyngor hwn trwy helpu pobl ym Merthyr Tudful i wneud y gorau posib o'u potensial, bod yn rhydd rhag tlodi, bod yn annibynnol ac iach, ac i fyw mewn cymunedau cefnogol a chryf. Mae'n bwysig nodi, er gwaethaf graddfa'r pwysau ariannol, mae'r Cyngor unwaith eto wedi ceisio dyrannu adnoddau ychwanegol, ble'n hollol angenrheidiol, i ymateb i anghenion y rhai mwyaf agored i niwed. Fel y byddwch yn ymwybodol, rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar nifer o gynigon i wneud arbedion ledled y Cyngor. Mae'n bosib iawn y gall rhai o'r rhain effeithio arnoch chi. Byddwch yn argyhoeddedig ein bod wedi gwrando'n ofalus iawn ar eich barn ac nid ar chwarae bach y gwnaed unrhyw benderfyniadau i leihau gwasanaethau. Mae pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau y gall y gwasanaethau rheng flaen barhau i weithredu'n effeithiol a chwrdd ag anghenion y rhai mwyaf bregus yn ein cymuned.


Mae ein blaenoriaethau gwasanaeth ar gyfer 2014/15 yn cynnwys:

- Parhau i gydweithio i sicrhau bod ein holl staff yn cael eu hyfforddi'n iawn ac yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu pobl agored i niwed;
- Parhau i wella'r ffordd y mae'r holl asiantaethau'n gweithio i sicrhau bod oedolion a phlant sydd mewn perygl o niwed sylweddol yn cael eu hamddiffyn a'u cadw'n ddiogel.
- Gwella cymorth integredig i oedolion hŷn ynghyd â'n partneriaid allweddol ledled Llywodraeth Leol, Iechyd a'r Trydydd sector.
- Datblygiad parhaol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig er mwyn i chi dderbyn y gwasanaeth sydd ei hangen arnoch chi mewn dull cydgysylltiedig;
- Comisiynu ystod o wasanaethau sy'n eich helpu chi i barhau i fod mor annibynnol â phosib;
- Parhau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n gwella lles plant a theuluoedd gydag anghenion cymhleth.

Rwyf wedi cadw strwythur yr adroddiad yr un fath â strwythur y llynedd gan eich bod wedi dweud wrthym ei fod o gymorth ac yn hawdd ei ddarllen. Felly, y penawdau yw: **'Diogelu', 'Gwasanaethau i Oedolion'** a **'Gwasanaethau i Blant a'u Teuluoedd'**. Bydd pop adran yn rhoi darlun i chi o sut mae pethau wedi mynd dros y flwyddyn ddiwethaf, darparu crynodeb o beth mae pob gwasanaeth yn bwriadu ei wneud eleni, a sut y bydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod ymroddiad a phroffesiynoldeb cyson ein staff a'n partneriaid sy'n helpu i roi cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned.





**Giovanni Isingrini**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol

# Diogelu

## Pa mor effeithiol ydym ni'n diogelu plant a phobl ifanc agored i niwed rhag niwed sylweddol?



**Mae gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn agored i niwed hawl i fod yn ddiogel, hapus ac iach; ac maen nhw'n haeddu cael eu gwarchod rhag camdriniaeth.**

Mae Diogelu fel arfer yn cyfeirio at y rhai hynny a allant fod yn agored i niwed. Gall hyn gynnwys:


- Plant dan 18 oed;
- Pobl ag anabledd corfforol, ar y golwg, clyw neu anabledd dysgu;
- Pobl â phroblemau iechyd meddwl;
- Yr henoed, pobl fregus neu sâl;
- Y rhai sy'n dioddef o unrhyw ffurf ar gam4drin domestig.

### *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Diogelu wedi cydweithio'n agos gydag ystod o staff a phartneriaid i sicrhau:

- Pan fyddwn yn penodi staff newydd, ein bod yn fodlon eu bod yn ddiogel i weithio ag oedolion, plant a phobl ifanc agored i niwed.
- Bod cyflogwyr, aelodau etholedig, ysgolion a sefydliadau partner wedi parhau i dderbyn mynediad at wybodaeth, hyfforddiant a chymorth i adnabod arwyddion cam4drin a deall eu cyfrifoldebau diogelu.
- Ein bod yn parhau i fonitro ansawdd ein hymarfer yn effeithiol, i sicrhau ei fod yn parhau i wella a'i fod o'r safon uchaf posib.
- Ein bod yn ymgynghori gyda a gwrando ar farn oedolion, plant a'u teuluoedd er mwyn ein helpu i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio ac ansawdd y cymorth yr ydym yn ei ddarparu.


Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i gynnal neu i wella ein perfformiad, a pharhau uwchben neu'n debyg i gyfartaledd Cymru.




Mae ein perfformiad mewn perthynas â chanran y cynadleddau diogelu plant cychwynnol a gynhaliwyd ar amser yn dda. Yn ystod 2013 / 2014 roedd ein perfformiad yn 100%. Mewn rhifau gwirioneddol cynhaliwyd 70 cynhadledd, yn ymwneud â 130 o blant a phobl ifanc.

Ers 2010 / 2011, mae ein perfformiad wedi gwella'n flynyddol, ac mae'n parhau i fod yn uwch na ffigwr cyfartalog diweddaraf Cymru (2012 / 2013) o 87.4%.

Mae gan bob plentyn ar ein Cofrestr Amddiffyn Plant Gynllun Amddiffyn Plentyn mewn lle. Mae'n ofynnol bod cynlluniau'n cael eu hadolygu yn rheolaidd i ganfod pa mor dda mae'r cynllun yn gweithio ac i sicrhau bod y plentyn / plant yn parhau i gael ei /eu diogelu rhag niwed. Fel ar 31ain Mawrth 2014, cafodd cynlluniau 99.7% o'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar y pryd eu hadolygu ar amser. Mewn cymhariaeth â llynedd, rydym wedi cynnal ein perfformiad ac rydym yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.





## *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Oeddech chi'n gwybod bod gan ***bob un ohonom ni*** gyfrifoldeb dros ddiogelu? Mae diogelu yn fusnes i ***bawb***!

Os welwch neu glywch chi rywbeth sy'n gwneud i chi deimlo'n anesmwyth, mae'n debyg y dylech ei grybwyll. Nid yw diogleu yn gymhleth, mae'n golygu defnyddio synnwyr cyffredin. Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch plentyn / person ifanc neu oedolyn agored i niwed, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol am gyngor.

Mewn perthynas ag oedolion agored i niwed a chanran yr atgyfeiriadau a gwblhawyd ar ôl i'r perygl gael ei reoli, ein perfformiad diwedd blwyddyn oedd 99.2%. Mae hyn yn welliant ar ein perfformiad yn ystod 2012 / 2013 (98.7%), ac yn llawer uwch na'r ffigwr cyfartalog diweddaraf sydd ar gael i Gymru (2012 / 2013) o 91.8%. Cafodd 141 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed eu cau yn ystod y flwyddyn. Mewn 8 achos cafwyd deilliannau o "dim gweithredu" neu "dim yn gymwys" 4 nid yw'r atgyfeiriadau hyn wedi eu cyfrif ar gyfer y dangosydd perfformiad. O'r 133 atgyfeiriad sy'n weddill, mae gan 132 ddeilliannau sy'n dangos bod y perygl wedi ei leihau /ddileu neu fod cynllun gwarchod oedolyn wedi ei sefydlu.




Ledled ardal Cwm Taf, ceir dau fwrdd rheoli aml asiantaeth strategaethol lefel uchel: ***Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf (BDPCT)*** a ***Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf (BDOCT***. Mae'r rhain yn gyfrifol am gydlynu a goruchwylio gwaith eu partneriaid i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion agored i niwed.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Byrddau wedi sicrhau gwelliant parhaol arfer aml asiantaeth, trwy ddarparu gweithdrefnau a chanllawiau cyfredol i staff, mynediad at ystod o gyfleoedd hyfforddi a thrwy ddatblygu prosesau gwell ar gyfer sicrhau ansawdd arfer trwy'r Grwpiau Sicrhau Ansawdd a Safonau.

## *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Mae Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf a Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu gwefan mewn ymgynghoriad â grwpiau cymunedol perthnasol. Pwrpas y wefan yw hysbysu cymunedau am y rôl y gallant ei chwarae yn diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Bydd y wefan yn weithredol yn yr hydref 2014.

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwella a Newid

Mae manylion y meysydd ar gyfer gwella yn ystod 2014 / 2015 i'w gweld isod ac maen nhw'n dilyn y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Merthyr Tudful 2013 – 2017:

| Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful Prif Ganlyniad | Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful Maes Blaenoriaeth |
|---|---|
| Bod pobl sy'n byw a gweithio ym Merthyr Tudful yn derbyn cymorth i fyw bywyd mwy iach a mwynhau gwell ansawdd bywyd | **Cwrdd ag Anghenion Plant Agored i Niwed**4 Plant a Phobl Ifanc sydd angen cymorth yn derbyn gwasanaethau i gwrdd â'u hanghenion |
| Bod pobl yn mwynhau lle bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. | **Diogelu Pobl Agored i Niwed –** Gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r angen i amddiffyn oedolion agored i niwed a phlant rhag niwed. |

## Meysydd ar gyfer Gwella yn ystod 2014 / 2015

**Blaenoriaeth: Mae'r holl weithwyr, aelodau etholedig (Cynghorwyr) a darparwyr gwasanaeth yn cael cymorth i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu ac yn atebol am eu cyfrifoldebau diogelu.**

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Bod holl weithwyr cyflogedig ac aelodau etholedig y cyngor wedi cael eu recriwtio mewn modd diogel, wedi derbyn hyfforddiant priodol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

**Blaenoriaeth: Rydym yn ymgynghori ag oedolion a phlant agored i niwed sydd mewn perygl o niwed arwyddocaol a phobl berthnasol eraill ac yn gwrando arnynt ac mae eu barn yn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaeth yn y dyfodol ac yn addysgu sut y maent yn derbyn cymorth.**

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Bod oedolion agored i niwed, plant mewn perygl o niwed arwyddocaol a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a chynlluniau sy'n ymwneud â nhw.
- Ar y cyd â'r Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion, byddwn yn gofyn i oedolion agored i niwed, plant mewn perygl a'u teuluoedd am eu profiad o'n gwasanaethau diogelu, a byddwn yn sicrhau bod unrhyw welliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud.

**Blaenoriaeth: Mae oedolion agored i niwed a phlant mewn perygl o niwed arwyddocaol yn cael eu hamddiffyn a'u cadw'n ddiogel rhag niwed arwyddocaol a niwed arwyddocaol ailadroddus.**

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n well; gwell trefniadau gwneud penderfyniadau, ac ymateb aml asiantaeth fwy cyson, amserol ac unedig i bryderon ynghylch plentyn neu oedolyn agored i niwed trwy'r gwaith parhaus o greu Canolbwynt Diogelu Aml Asiantaeth Cwm Taf.
- Parhau i wella arfer aml asiantaeth trwy sicrhau bod gan staff brotocolau a chanllawiau cyfredol.
- Parhau i wella arfer aml4asiantaeth trwy sicrhau ein bod yn darparu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth.
- Parhau i wella arfer aml asiantaeth trwy ymgymryd â gwaith sicrhau ansawdd a sicrhau ein bod yn dysgu'n effeithiol ac yn barhaus o hyn.

## Blaenoriaeth: Mae aelodau'r gymuned yn cael cymorth i fod yn ymwybodol o'u rolau a chyfrifoldebau a sut y gallant gyfrannu at ddiogelu oedolion agored i niwed a phlant mewn perygl o niwed arwyddocaol.

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Mynediad at wybodaeth aml4gyfrwng i hysbysu aelodau'r gymuned o'r rôl y gallant ei chwarae yn diogelu plant/pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ynghyd â'r Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion.

# Gwasanaethau i Oedolion

## Pa mor dda ydym ni'n cyflenwi gwasanaethau i oedolion?



**Nod y Gwasanaethau i Oedolion yw: Rhoi cymorth i bobl fyw bywydau annibynnol, iach a llawn.** Rydym yn cyflawni hyn trwy ddarparu cymorth i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain, ble bynnag y bo hynny'n bosib; yn hytrach na mynd i ofal preswyl.

Er mwyn gwneud hyn rydym yn:

- Darparu gwasanaethau sy'n helpu i atal colli annibyniaeth ac ynysu, a rhoi cymorth i bobl gynnal eu hansawdd bywyd.
- Sicrhau bod cymorth parod ar gael ar gyfer adsefydlu ac ail4alluogi.
- Annog y defnydd o daliadau uniongyrchol.
- Teilwra cymorth i gwrdd ag anghenion a chanlyniadau unigol.
- Rhoi cymorth i bobl allu cymryd rhan weithredol yn y broses o gynllunio, darparu a gwerthuso eu gwasanaeth.

Y strategaeth Cartref am Oes a roddodd yr arweiniad i wasanaethau cymdeithasol i oedolion ac mae wedi ein galluogi ni i ddatblygu gwasanaethau a fydd yn ategu at y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles newydd pan fydd wedi ei derfynu. Cafodd strwythur Gofal Cymdeithasol Oedolion ei adolygu yn ystod 2012 / 2013 i gefnogi canlyniad hybu annibyniaeth ac alinio'r holl wasanaethau galluogi yn un canolbwynt i gwsmeriaid.

Er gwaethaf darparu gwasanaethau i atal colli annibyniaeth, rydym wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer y bobl sy'n cael cefnogaeth mewn cartrefi gofal i 221 o bobl. Mae hyn yn llawer uwch na'n ffigwr diwedd blwyddyn o 206 ar gyfer 2012 / 2013. Er bod cynnydd wedi bod yn y lleoliadau cyffredinol, mae'n bwysig nodi bod anghenion y bobl hyn wedi newid yn sylweddol sy'n golygu mai'r galw mwyaf yw cwrdd ag anghenion y rhai hynny ag anghenion nyrsio. Mae hyn oherwydd bod llawer mwy o bobl yn cael cefnogaeth yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser, a phan fydd angen llety arnynt mae eu hanghenion yn llawer mwy.

### Ymateb i Angen

Fe wnaeth ad4drefnu gwasanaethau i oedolion yn 2012/13 greu un tîm o Weithwyr Cymdeithasol i ddarparu gwasanaeth i'r oedolion hynny ag anghenion cymhleth, tymor hir. Mae'r tîm yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Cymorth Cychwynnol i sicrhau trosglwyddiad di4dor o ofal i'r oedolion hynny sydd angen cymorth parhaus. Canran fawr o waith y tîm yw cefnogi rhyddhau cleifion o ysbytai a chadw unrhyw oedi i leiafswm. Mae creu'r gwasanaethau cychwynnol ac arbenigol wedi golygu nad yw Gweithwyr Cymdeithasol bellach yn ymgymryd â gwaith anghymhleth, sy'n caniatáu iddynt dreulio mwy o amser gyda phobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a diogelu'r cleientiaid mwyaf agored i niwed.

## *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Mae gennym gytundeb mewn lle gyda phob darparwr gwasanaeth yr ydym yn comisiynu gwasanaethau ganddyn nhw. Mae'r cytundebau hyn yn cynnwys anghenion ar gyfer diogelu pobl agored i niwed a sicrhau gwerth am arian.

Rydym wedi datblygu Protocol Perfformiad Cyflenwr newydd sy'n nodi sut y byddwn yn monitro'r gwasanaethau yr ydym yn eu comisiynu.

**Parc Iechyd**

Un o'n blaenoriaethau ar gyfer 2012/13 oedd ad4drefnu gwasanaethau dydd ac adleoli rhai o'n gwasanaethau i'r parc iechyd newydd Parc Iechyd Keir Hardie. Cafodd ei gwblhau yn Hydref 2012 ac mae'r symudiad wedi arwain at gydleoli gwasanaethau dydd anabledd dysgu gyda'r tîm clinigol gwasanaeth iechyd. Mae buddiannau'n cynnwys mynediad at staff clinigol yn ystod presenoldeb yn y ganolfan ar gyfer asesiad, triniaeth a phrofion meddygol arferol, gan golli'r angen am ymweliadau cartref a chynyddu amseroedd ymateb yn sylweddol.

Rydym wedi ailstrwythuro ein gwasanaethau'n llwyddiannus i'n galluogi ni i ymateb yn fwy effeithiol i'r galw am wasanaethau o fewn y gymuned yn y dyfodol. Cafodd y strwythur ei gynllunio hefyd i'n galluogi ni i ddatblygu gwasanaethau integredig yn y dyfodol gydag iechyd yn seiliedig ar ardal Merthyr Tudful. Mae hyn wedi ei anelu at wella'r ffordd yr ydym yn cydweithio i ddarparu ein gwasanaethau a gellir ei weld gan yr ystod o wasanaethau sydd gennym yn awr yn yr adnodd newydd ym Mharc Iechyd Keir Hardie.

Yn Ionawr 2013, dewisodd Arolygaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) CBS Merthyr Tudful fel un o'r pum cyngor yr oeddem eisiau ymweld â nhw fel rhan o adolygiad cenedlaethol o gomisiynu ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol yr ydym wedi bod yn comisiynu gofal a chymorth i bobl â dementia a'u gofalwyr. Roedd canlyniad yr adolygiad yn gadarnhaol, ac fe amlygodd nifer o feysydd o arfer da; yn cynnwys Parc Iechyd Keir Hardie.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cychwynnol, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Gofal yn y Cartref, Ail4 alluogi a Therapi Galwedigaethol Cymunedol yn rhoi cymorth effeithiol i bobl i adennill eu hannibyniaeth trwy ddarparu gwasanaethau galluogi. Mae nifer o'r Gwasanaethau Cymorth Cychwynnol hefyd wedi eu lleoli ym Mharc Iechyd Keir Hardie ynghyd â'r Nyrsys Cymunedol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu gwella ein cyfathrebu rhwng y timoedd gwasanaethau cymdeithasol a'n cydweithwyr iechyd sy'n ein helpu ni yn y ffordd yr ydym yn cydweithio i ddarparu gwell gwasanaeth i chi.

Rydym hefyd wedi trosglwyddo'r tŷ Teleofal a'r adnoddau arddangos cymhorthion ac offer o MIDEC i'r Parc Iechyd. Gallwch ymweld a rhoi cynnig ar yr ystod eang o offer sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys offer clyw a golwg arbenigol hefyd.

Ymgymerwyd ag adolygiad o'r Gwasanaeth Ail4alluogi ac Ymateb Cychwynnol yn Chwefror 2013 gan Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) fel rhan o'i adolygiad o wasanaethau wedi eu cyd4leoli yn y Parc Iechyd. Yn ôl yr adroddiad pan ofynnwyd i ddefnyddwyr

gwasanaeth pa mor effeithiol yr oedden nhw'n meddwl oedd y gwasanaeth, yr ymateb oedd ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd eu bywydau.

## *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Cyflwynwyd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn 2010.

Nod y Mesur yw gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl yng Nghymru yn asesu, gofalu a thrin pob person â phroblemau iechyd meddwl, mewn ysbyty neu yn y gymuned. Mae'n berthnasol i bob grŵp oedran – plant, oedolion oed gweithio a phobl hŷn.

Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Prifsygol a'r Sector Gwirfoddol, mae enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni hyd yma yn cynnwys:

- Sefydlu Gwasanaeth Cymorth Gofal Sylfaenol Iechyd Meddwl Lleol ym Mharc Iechyd Keir Hardie; sy'n darparu ystod o ddewisiadau cymorth cynnar, yn ogystal ag atgyfeiriad at Wasanaethau Gofal Eilaidd (mwy arbenigol) os oes angen;
- Mae gan 61% o ddefnyddwyr gwasanaeth Gynllun Gofal a Thriniaeth yn awr. Rydym yn anelu at wella hyn yn 2014 / 2015, ac wedi gosod targed o 90%
- Mae gwasanaethau eirioli mewn lle i unigolion sydd yn yr ysbyty, os oes angen.

Mae'r tîm Seiciatreg Henaint wedi symud i'w canolfan newydd yn y Parc Iechyd ynghyd â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Mae hyn yn golygu eu bod yn awr yn rhannu swyddfeydd gyda'r Tîm Allgymorth Grymusol a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Glasoed. Mae'r Gwasanaeth Dydd Dementia hefyd wedi ei leoli yn yr ysbyty dydd a fydd eto'n gwella cyfathrebu rhwng y gwasanaethau hyn a galluogi'r timoedd i gydweithio i wella gwasanaeth. Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn â Bwrdd Iechyd Cwm Taf sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ennill adnoddau ychwanegol i atgyfnerthu gwasanaethau seiliedig yn y gymuned i roi cymorth i bobl aros yn eu cartrefi. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i gynyddu adnoddau therapi o fewn y tîm Ail4alluogi ym Merthyr Tudful.

## *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Bob blwyddyn rydym yn adolygu anghenion hyfforddi ein staff ac yn cynllunio rhaglenni hyfforddi i sicrhau pan fydd gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â chi y bydd yn meddu ar y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i'ch helpu i aros mor annibynnol â phosib.

Yn ystod 2013 / 2014 fe wnaethom drefnu 355 cwrs hyfforddi, yn cynnig 3402 o lefydd i'n staff ac asiantaethau partner.

**Llety**

Agorwyd y ddau gartref gofal newydd yn Ystâd y Gurnos a Threharris yn Rhagfyr 2013. Mae'r ddau gartref newydd yn gallu rhoi lle i 32 o breswylwyr yr un gydag ystod o wahanol anghenion. Mae'r cartrefi newydd wedi eu hadeiladu i'r safonau diweddaraf (sydd i'w gweld ar wefan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)). Mae pob ystafell yn fawr a

golau ac mae ganddynt adnoddau en4suite, gan sicrhau bod preswylwyr yn byw mewn llety cartrefol o ansawdd uchel

.

*Cartref Preswyl Newydd, Treharris.*




Mae datblygiad yr adnodd gofal ychwanegol wedi gwella darpariaeth i bobl hŷn yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r cynllun wedi rhwystro unigolion rhag mynd i leoliadau sefydliadedig tymor hir ac wedi caniatáu i unigolion 'gymryd cam yn ôl' o'r lleoliadau hyn i fyw yn fwy annibynnol. Ers 31ain Mawrth 2014 mae Gofal Ychwanegol Tŷ Cwm yn llawn gyda 66 o bobl yn byw yno.

Mae'r "Cynllun Rhannu Bywydau" yn Gynllun Lleoli Oedolion sy'n gosod oedolion agored i niwed gyda gofalwyr mewn cymunedau lleol gan roi cyfle iddynt fod yn rhan o deulu. Yn ystod 2013 / 2014 cafodd 10 o bobl eu lleoli yn y ffordd hon. Efallai bod gan yr oedolyn anabledd dysgu neu anabledd corfforol, efallai bod ganddo broblemau iechyd neu yn berson hŷn sydd eisiau byw mewn amgylchedd cartrefol, ond yn methu ag ymdopi ar ben ei hun. Mae 16 o bobl eraill yn aros i gael eu paru gyda theuluoedd.

## Hybu Annibyniaeth

**Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal**

Mae oedi wrth drosglwyddo gofal – sydd hefyd yn cael ei adnabod fel "blocio gwelyau" – yn digwydd pan fydd person sydd ddim angen triniaeth yn yr ysbyty bellach yn methu â gadael i ddychwelyd adref neu i leoliad gofal cymdeithasol fel cartref preswyl.





Oherwydd nifer o ffactorau, yn cynnwys cynnydd dros dro yn nifer y bobl sydd angen gofal nyrsio a phreswyl, cau cartref nyrsio oedd yn cael ei redeg yn breifat (gan leihau nifer y gwelyau ar gael yn lleol) 4 mae ein perfformiad yn y flwyddyn (2013 / 2014) wedi cynyddu i 5.5 oediad i bob 1,000 o'r boblogaeth (75+ oed) mewn cymhariaeth â'n ffigwr perfformiad diwedd blwyddyn (3.35) ar gyfer 2012 / 2013; ac rydym yn uwch na'r ffigwr cyfartalog sydd ar gael i Gymru o 4.57 (2012 / 2013). Bydd staff Gwaith Cymdeithasol yn parhau i weithio'n agos gyda Thîm Trefnu Rhyddhau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau mor amserol â phosib.

Ble'n bosib, mae ein Gwasanaeth Ail4alluogi yn helpu cleifion sydd yn yr ysbyty i fynd adref cyn gynted ag y gallant. Gall galw am y gwasanaethau hyn amrywio'n sylweddol fodd bynnag, ond ceir tuedd gyffredinol tuag at fod eisiau cymorth i aros adref.

## *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Yn ystod 2013 / 2014, rhoddodd ein gwasanaeth Ymateb Cychwynnol gymorth i 420 o bobl, y gwnaeth 213 ohonynt adennill eu hannibyniaeth ac fe lwyddodd 40 arall i adennill lefel o annibyniaeth.

Mewn cymhariaeth ag Awdurdodau eraill, mae Merthyr Tudful yn un o'r rhai sy'n perfformio orau o ran cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd) yn cael cymorth yn y gymuned, mae ein perfformiad ar gyfer 2013 / 2014 (113.74) wedi gostwng ychydig mewn cymhariaeth â'n perfformiad yn 2012 / 2013 (114.85); ond er gwaethaf hyn, rydym yn dal yn llawer uwch na'r ffigwr cyfartalog diweddaraf i Gymru o 77.53.





Yn ystod 2013/14 o'r holl bobl sy'n hysbys i ni ac yr ydym yn rhoi cymorth iddynt, mae 88.99% yn cael cymorth yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn beth da ac mae'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru.

## Cynllun Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Unigol yn galluogi unigolion i brynu a rheoli gwasanaethau cymorth yn bersonol trwy gyflogi'r bobl neu sefydliadau y maen nhw'n dewis eu cyflogi. Mae'n golygu eu bod yn gallu cynllunio'r cymorth mwyaf addas ar eu cyfer.

Mae Defnyddwyr Gwasanaeth sydd wedi gwneud cais am Daliad Uniongyrchol yn lle gwasanaethau yn parhau i gynyddu ar ledled y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant. Ar y 1af o Ebrill 2013 roedd cyfanswm o 98 o bobl yn derbyn taliad uniongyrchol. Erbyn 31ain Mawrth 2014, mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu i 118 gydag 17 atgyfeiriad arall yn cael eu prosesu ar hyn o bryd. Mae'r tabl isod yn dangos twf parhaol y cynllun ers Ionawr 2008.

**Cynnydd o ran defnyddwyr Cynllun Cymorth Taliadau Uniongyrchol ers Ionawr 2008**




**Gofalwyr**

Gofalwr yw person sy'n gofalu am rywun sydd angen cymorth. Nid oes rhaid i chi fod yn berthynas i gael eich galw'n ofalwr. Mae Rhwydwaith Gofalwyr ym Merthyr Tudful sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol, Sefydliadau Gwirfoddol a Gofalwyr eu hunain. Mae'r Rhwydwaith Gofalwyr yn darparu ystod o wasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol Gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal er mwyn iddynt allu byw mor annibynnol â phosib.

## *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Yn ystod 2013 / 2014, cynigiwyd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion i 100% o ofalwyr. Rydym wedi cynnal ein perfformiad yn y maes hwn dros y 4 blynedd diwethaf, ac rydym uwchben Cyfartaledd Cymru ar gyfer 2012 / 2013 o 86.8%.

Ers 2010 / 2011 gwelwyd cynnydd rheolaidd bob blwyddyn o ran nifer yr asesiadau yr ymgymerwyd â nhw dros y 3 blynedd diwethaf (ers 2010 / 2011), fodd bynnag, yn ystod 2013 / 2014 pan ofynnwyd iddynt, dim ond 36.4% o ofalwyr ddywedodd eu bod eisiau asesiad. O'r rhain, aeth 77.7% ymlaen i dderbyn gwasanaeth. Mae hyn ychydig yn uwch na ffigwr perfformiad y flwyddyn flaenorol (12/13) o 75.2% a'r ffigwr diweddaraf sydd ar gael ar gyfer cyfartaledd Cymru o 62.8%.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid a gofalwyr i wella nifer yr asesiadau sy'n cael eu cynnal a nifer y gofalwyr sy'n derbyn gwasanaeth o ganlyniad.

Rydym wedi cynyddu nifer y cyfleoedd hyfforddi i ofalwyr trwy'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae calendr hyfforddiant pwrpasol yn bodoli i ofalwyr sy'n seiliedig ar anghenion gofalwyr (sydd wedi eu hadnabod gan y gofalwyr eu hunain fel rhan o broses ymgynghori ar anghenion hyfforddi).

***Oeddech Chi'n Gwybod?***

O Ebrill 2014, bydd gofalwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau hamdden rhatach mewn canolfannau hamdden awdurdod lleol.

**Dysgu Oedolion yn y Gymuned**

Rydym hefyd yn sicrhau bod unigolion yn cael cymorth i fod mor annibynnol â phosib, ac i ddatblygu sgiliau bywyd, yn cynnwys cael gafael ar wasanaethau, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth cyffredinol a chymunedol seiliedig yn y gymuned.

Yn eu harolwg o ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned fe farnodd Estyn (sy'n arolygu Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), bod y gwasanaeth yn gyffredinol yn rhagorol. Nododd eu canfyddiadau bod cyflawniad oedolion sy'n dysgu yn y gymuned ym Merthyr Tudful yn rhagorol. Mae nifer o ddysgwyr wedi datblygu cariad at ddysgu ac yn ennill sgiliau personol, cymdeithasol a chyflogadwyedd gwerthfawr sy'n arwain at fwy o gynhwysiant cymdeithasol a byw yn annibynnol.

***Oeddech Chi'n Gwybod?***

Yn ystod 2013 / 2014, cymerodd 869 o ddysgwyr ran mewn cyrsiau i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol, gyda 622 yn cofrestru ar gwrs achredededig, yr aeth 87% (541) ohonynt ymlaen i ennill cymwysterau. O gyfanswm yr unigolion a gymerodd ran mae 765 (88%) wedi mynd ymlaen at addysg bellach, hyfforddiant neu gyfleoedd gwirfoddoli.

Mae Dysgu Teuluol a Chymunedol yn rhedeg prosiect gwirfoddoli ym Mharc Cyfarthfa. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r rhaglen wirfoddoli, gyda 91 o wirfoddolwyr wedi cofrestru hyd yma. Mae'n ymrwymo ystod amrywiol o ddysgwyr / gwirfoddolwyr sy'n cynnwys gofalwyr, myfyrwyr ag anghenion ychwanegol, dysgwyr hŷn, ysgolion a defnyddwyr gwasanaeth gyda chyflyrau iechyd meddwl.

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwella a Newid

Mae'r meysydd ar gyfer gwella yn ystod 2014 / 2015 a nodir isod yn ategu at y blaenoriaethau canlynol a nodir yn y Cynllun Integredig Sengl i Ferthyr Tudful 2013 4 2017:

| Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful<br>Prif Ganlyniad | Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful<br>Maes Blaenoriaeth |
|---|---|
| Bod pobl sy'n byw a gweithio ym Merthyr Tudful yn derbyn cymorth i fyw bywyd mwy iach a mwynhau gwell ansawdd bywyd. | **Hyrwyddo annibyniaeth –** Mae pobl ym Merthyr Tudful yn gallu arwain bywydau annibynnol a llawn.<br><br>Mae llety, taliadau uniongyrchol, gofalwyr a thai hefyd yn cael eu diffinio'n glir o fewn y rhan hwn o'r Cynllun Integredig Sengl.<br><br>**Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol =** Plant, pobl ifanc ac oedolion ym Merthyr Tudful yn mwynhau gwell iechyd meddwl a lles.<br><br>Mae "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl" a Llwybr Cymorth i'r Teulu hefyd yn cael eu diffinio'n glir o fewn y rhan hwn o'r Cynllun Integredig Sengl. |
| Bod pobl yn mwynhau lle bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. | **Tai** – Cymuned ble mae trigolion yn byw mewn tai priodol, fforddiadwy ac o ansawdd da. |

## Meysydd ar gyfer Gwella yn ystod 2013 / 2014

### Blaenoriaeth: Cyflenwi gwasanaethau lleol mewn partneriaeth ag Iechyd

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Bydd y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch: yn cael eu cyflawni'n lleol, yn y lle iawn, ar yr amser iawn, a gan y person iawn.
- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn cydweithio i sicrhau bod y gwasanaeth sydd ei angen arnoch yn gyd4gysylltiedig.

### Blaenoriaeth: Sicrhau bod gwasanaethau'n cynnig gwerth am arian, eu bod o ansawdd da ac yn gallu cwrdd â'ch anghenion sy'n newid.

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Bydd ystod o wasanaethau ar gael i chi sy'n ddigon hyblyg i gwrdd â'ch anghenion wrth iddynt newid.
- Pan fyddwn yn comisiynu gwasanaethau, byddant yn cael eu monitro gennym ni er mwyn

sicrhau eu bod yn cwrdd â'ch anghenion, o ansawdd uchel ac yn cynnig gwerth am arian.

**Blaenoriaeth: Parhau i ail gynllunio gwasanaethau i wella lles a rhoi cymorth i unigolion a theuluoedd fyw bywydau annibynnol o fewn eu cymunedau.**

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Bydd ystod o wasanaethau yn ystod y dydd yn cael eu comisiynu i gynorthwyo pobl i fyw bywydau mwy cyflawn ac ystyriol.
- Bydd iechyd a lles preswylwyr yn gwella trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu.
- Bydd ystod o wasanaethau i ofalwyr sy'n seiliedig ar eu barn nhw ynghylch yr hyn sydd ei angen arnynt.

**Blaenoriaeth: Cwblhau rhoi Strategaeth Cartref Am Oes 2005 =2020 ar waith**

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Bydd gennych ddewis o wahanol fathau o wasanaeth, felly os fydd angen cymorth arnoch chi, ni fyddwch yn awtomatig yn gorfod gadael eich cartref. Gallwch ddewis cymryd rheolaeth dros eich gofal a chymorth eich hun trwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol.
- Gallwch ddewis byw yn barhaol neu am gyfnodau gyda theulu arall yn defnyddio'r cynllun 'Rhannu Bywydau'.
- Os ydych yn dewis byw mewn cartref preswyl, yn ogystal ag edrych a theimlo'n fwy fel cartref arferol, bydd gan y staff sy'n gweithio yno'r sgiliau a phrofiad i gwrdd â'ch anghenion.

**Blaenoriaeth: Datblygu ac ymgynghori ar strategaeth sy'n nodi sut y gellir darparu cymorth integredig i oedolion hŷn gyda phartneriaid allweddol ledled Llywodraeth Leol, Iechyd a'r Trydydd sector.**

**Y canlyniadau i bobl fydd:**

- Ble'n bosib, ni fydd pobl yn cael eu derbyn i gartrefi gofal yn uniongyrchol o'r ysbyty.
- Ni fydd pobl yn aros yn yr ysbyty am fwy o gyfnod nac sydd ei angen.
- Bydd rhyddid y bobl fwyaf agored i niwed yn cael ei ddiogelu pan fyddant yn byw mewn unrhyw fath o lety gyda chymorth neu yn eu cartrefi eu hunain.
- Bydd ystod y cymorth sydd ar gael i bobl yn y gymuned yn cynyddu.
- Bydd pobl yn derbyn cymorth i fyw bywydau annibynnol, iach a chyflawn.

# Gwasanaethau i Blant a'u Teuluoedd

## Pa mor dda ydym ni'n darparu Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc mewn Angen?



**Ein gwaith ni yn yr adran Gwasanaethau Plant yw rhoi cymorth i blant a phobl ifanc i fyw bywyd iach, diogel a llawn.**

Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu cymorth a gwasanaethau er mwyn i'w hanghenion gael eu diwallu trwy fyw yn barhaol gyda'u teuluoedd eu hunain neu trwy drefniadau teulu amgen. Mae rhoi cymorth i'r plant a phobl ifanc yr ydym yn gofalu amdanynt yn un o'r cyfrifoldebau mwyaf sydd gennym ni.

Mae'r galw am wasanaethau cymdeithasol plant yn parhau i fod yn uchel. Er gwaethaf hyn, ar y cyfan mae gwasanaethau plant yn parhau i berfformio'n dda. Mae perfformiad yn erbyn dangosyddion craidd wedi cael ei gynnal o leiaf ac mewn sawl achos wedi gwella.

Mae gwybodaeth gyhoeddus wedi cael ei hadolygu. Y datblygiad oedd yn flaenoriaeth ar gyfer 2013 / 2014 oedd adolygu'r wefan ar gyfer maethu, i gefnogi ein mentrau recriwtio, a chafodd ei lansio yn ystod yr haf 2014.

Mae gwrando ar yr hyn mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn ei ddweud wrthym wedi parhau i fod yn flaenoriaeth gennym ac mae'n rhan annatod o'r gwasanaethau a ddarparir gan Ganolfan Deuluol Gellideg. Rydym wedi ymgymryd â gwaith eleni i ddatblygu prosesau adborth tebyg i wasanaethau eraill e.e. y gwasanaeth Plant Mewn Angen newydd a hefyd i sicrhau ein bod yn defnyddio'r adborth yr ydym y ei dderbyn trwy ein gwaith arferol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn well. Er enghraifft rydym wedi adolygu sut yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu trwy'r broses ymgynghori ar gyfer adolygiadau o gynlluniau plant a'n gwasanaethau maethu a mabwysiadu, a byddwn yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon yn fwy effeithiol yn y dyfodol i ddylanwadu ar yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud.

## Ymateb i angen

Mae gwasanaethau plant yn gweithio gyda chyfartaledd o 750 o blant mewn angen ar unrhyw amser. Mae pob plentyn / person ifanc yn derbyn asesiad unigol a, ble ceir darpariaeth gwasanaeth parhaus cynllun unigol sy'n cael ei adolygu bob 6 mis fan bellach.

Mae'r 'Gwasanaeth Gwell ar gyfer Plant Mewn Angen' (yr adroddwyd arno'r llynedd) bellach yn weithredol. Mae'r staff gwaith cymdeithasol (Gweithiwr Cymdeithasol Uwch a 2 Weithiwr

Cymdeithasol) wrth eu gwaith ac yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig asesiad a chymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn destun atgyfeiriadau lluosog yn flaenorol a lle ceir perygl y bydd y plentyn / person ifanc yn dod i dderbyn gofal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Felly mae hon yn rhaglen ddwys o waith sy'n gofyn llawer gan y teuluoedd sy'n cymryd rhan. Ar 31[ain] Mawrth 2014, roedd 53 o blant yn cael budd o'r gwasanaeth hwn.

Pan fyddwn yn gweithio gyda theuluoedd, rydym yn cytuno ar gynllun gyda nhw sydd wedi ei gynllunio i gyflawni deilliannau amlwg. Rydym wedi datblygu fformat newydd ar gyfer hyn, y mae teuluoedd yn dweud wrthym sydd well ganddynt, ac mae'n eu helpu nhw i ddeall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw a pha help maen nhw'n ei dderbyn. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r math hwn o gynllun ar draws yr holl wasanaeth yn awr er y gall hyn gymryd amser i'w gyflawni.

Pan fydd gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â phlentyn / person ifanc, gallant fod yn sicr bod ganddynt y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i helpu. Er mwyn gwneud hyn mae gennym Raglen Datblygu Gweithlu gynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar anghenion y staff ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn ymgynghori â'n staff ynghylch pa hyfforddiant y maen nhw'n credu sydd ei angen arnynt yn ogystal ag ystyried yr adborth yr ydym yn ei dderbyn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'n trefniadau sicrhau ansawdd.

Mae gan Ferthyr Tudful eisoes Ganolfan Deuluol lwyddiannus iawn sydd wedi ennill gwobrau yn Gellideg, a chafwyd cynnydd o oddeutu 10% yn yr atgyfeiriadau at Gellideg ar gyfer Gwaith Uniongyrchol eleni. Mae Gellideg yn darparu gwasanaethau a chymorth i blant a theuluoedd sydd â lefelau angen uchel a chymhleth. Mae hyn yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Cymorth Dwys Teuluol sy'n gweithio ledled Merthyr Tudful a RhCT. Mae hwn yn wasanaeth arbenigol iawn sy'n gweithio gyda rhieni sydd â phroblemau cam4drin sylweddau difrifol.

Mae Canolfan Deuluol Gellideg wedi darparu gwasanaethau i 121 o deuluoedd yn ystod y flwyddyn, gyda phlant a rhieni yn y teuluoedd hyn yn derbyn gwasanaethau unigol. Y teuluoedd hyn a'u plant yw'r mwyaf agored i niwed yn ein cymuned. Mae'r ganolfan deuluol yn holi teuluoedd am eu barn ar y gwasanaethau y maen nhw wedi eu derbyn ac yn gwerthuso sut mae'r gwasanaethau wedi eu helpu. Ar y cyfan, mae'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn yn dangos lefel uchel o foddhad.

## Gellideg – Barn ein teuluoedd am ein gwasanaethau!

**Gwaith uniongyrchol**
*"Mi wnes i fwynhau gweithio gyda X achos fe wnaeth hi helpu fi wella fy ymddygiad ac fe gawsom ni hwyl"*
*"Helpodd X fi trwy roi cymorth i mi pan oeddwn mewn cadair olwyn. Gafodd e' fi mas o'r gadair olwyn trwy godi fy hyder trwy fynd â fi i lefydd cyhoeddus"*
*"O'n i'n hoffi chwarae gemau fel teulu. O'n i'n hoffi pan wnaeth X fy helpu gyda fy mhryderon"*
*"Wnes i wir fwynhau fy sesiynau ac roeddwn yn teimlo ei bod wedi helpu fi i ymdopi gyda fy mhroblemau ond hefyd fe wnaeth hi roi dulliau ymdopi i mi"*

**Sesiynau teulu**
*"Roedd gweithio gyda mam yn help mawr achos mae'n dangos i mi beth mae'n disgwyl i fi ei wneud"*
*"Roedd y gwaith gyda fy mab yn wych. Allwn i ddim gofyn am weithiwr gwell"*
*"Dwi'n meddwl diolch i X mae ein teulu'n agosach ac rydym wedi gallu deall ac uniaethu â'n gilydd diolch i'r sesiynau teulu rydym wedi cael ffyrdd haws o ymdopi â sefyllfaoedd ac mae ein sesiynau teulu wedi bod yn llwyddiant mawr ac rwy'n teimlo'n bod ni'n gallu mynd ymlaen fel teulu gwell. Diolch X am dy holl waith ac amser!"*
*"Mae fy mherthynas ag X wedi gwella ers i mi roi adborth ddiwethaf"*

**Gweithiwr Cymorth Ymyriad Teuluol**
*"Roedd hi'n neis iawn i weithio gyda hi a rhoddodd wybodaeth roeddwn i ei eisiau i mi a'm partner ac roedd yn help mewn ffyrdd eraill hefyd. Rwy'n drist i'w gweld hi'n mynd ond yn papus fy mod wedi cyrraedd pwynt i allu gwneud pethau fy hun i'm teulu"*
*"Roedd y cymorth yn help mawr. Os fyddai byth angen help eto fyddai'n gwybod ble i fynd"*

Mae gan y Cyngor wasanaethau i helpu pobl sydd ddim angen gweithiwr cymdeithasol, sy'n cael ei ddarparu gennym ni a'n partneriaid. Mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn cael cefnogaeth Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ac mae'r gwasanaethau hyn wedi eu cynllunio i helpu teuluoedd sydd angen cymorth a chyngor wrth i broblemau ddod i'r amlwg. Mae hyn yn cynnwys y Rhaglen Cymorth Ymyriad Lluosog (MIA) sy'n darparu ymyriad cynnar i weithio ochr yn ochr â theuluoedd i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'u helpu i ganfod datrysiadau posib. Ar 31ain Mawrth 2014, roedd MIA yn gweithio gyda 211 o deuluoedd. Yn ystod 2013 / 2014, ystyriwyd bod 141 yn briodol i gael eu cau i MIA. Mae 102 o deuluoedd (72%) wedi cofnodi canlyniad llwyddiannus. Cafodd 25 (18%) teulu eu hadnabod ac fe wnaethant dderbyn cymorth i gamu i fyny at wasanaethau statudol a chafodd 14(10%) pellach eu cau oherwydd dadymafael.

Yn ystod 2013 / 2014 rydym wedi derbyn adborth gan gyfanswm o 99 teulu ar y gwasanaeth y maent wedi ei dderbyn gan MIA. O'r rhai a gwblhaodd werthusiad, nododd 100% eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth.

Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn awr yn darparu gwasanaeth i ofalwyr ifanc ym Merthyr Tudful hefyd. Yn ystod 2013 / 2014, cafodd cyfanswm o 71 o ofalwyr ifanc gymorth. Roedd 21

gofalwr ifanc hefyd yn derbyn gwasanaeth 'Tîm o Amgylch y Teulu' MIA. Mae codi ymwybyddiaeth trwy'r 'Prosiect Ymyriad Ysgol' yn ystod 2013 / 2014 wedi arwain at ganfod 51 o ofalwyr ifanc eraill.


O 31ain Mawrth 2014, mae 54 gofalwr ifanc yn derbyn gwasanaethau ac mae 13 arall wedi derbyn cymorth yn ystod y flwyddyn. Mae 45 gofalwr ifanc pellach wedi eu canfod sy'n cael eu hasesu i ganfod eu hanghenion presennol ac i'r dyfodol.

Mae rhai gwasanaethau i blant anabl yn cael eu darparu gan y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf hefyd.

***Oeddech Chi'n Gwybod?***

Derbyniodd gwasanaethau plant dros 4548 o ymholiadau am wybodaeth, cyngor neu wasanaeth yn ystod 2013 / 2014.

Fe wnaethom ddweud wrthych y llynedd ein bod wedi newid y ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn gwella pa mor dda a pha mor gyflym yr ydym yn gwneud asesiadau. Mae'r graff isod yn dangos ein bod wedi parhau i gynnal ein perfformiad o ran yr asesiadau yr ydym yn eu gwneud ochr yn ochr â theuluoedd.




Rydym wedi bod yn datblygu agwedd seiliedig ar ganlyniadau tuag at y Gwasanaethau Derbyn, Asesiad a Theuluol yr ydym yn eu darparu, sydd wedi arwain at lefelau gwell o ran ymrwymo

teuluoedd gyda'r cynlluniau a gwasanaethau a ddarparir.  Mae hyn wedi cynnwys adborth parhaus gan ein defnyddwyr gwasanaeth a bydd yn cael ei ymestyn i rannau eraill o'r gwasanaeth yn y flwyddyn i ddod.

## Edrych ar ôl plant

Mae yna rai sefyllfaoedd yn bodoli ble na all plant aros yn ddiogel yn eu cartref.  Pan fydd hyn yn digwydd ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod y plant hyn yn derbyn gofal iawn.  Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi rhoi newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio gydag achosion lle mae angen achosion cyfreithiol ar waith yn effeithiol.

Mae'r nifer o blant yr ydym yn edrych ar eu holau wedi bod yn codi'n raddol (sy'n wir am Gymru gyfan); fodd bynnag, o fewn Merthyr Tudful, mae arwyddion cynnar yn dangos bod hyn y dechrau sefydlogi. Rydym yn edrych ar ôl plant a phobl ifanc o bob oedran, sydd â llawer o anghenion. Mae ein gwasanaethau Maethu a Mabwysiadu'n gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol i ddarparu lleoliadau sy'n cwrdd ag anghenion plant ac i ymchwilio opsiynau pellach o fewn y teulu.

**Adborth Plant sy'n Derbyn Gofal**


Casglwyd adborth oddi wrth plant sy'n derbyn gofal fel rhan o'r broses o adolygu eu cynlluniau.  Mae'r mwyafrif o blant sy'n derbyn gofal yn dangos lefel uchel o foddhad gyda'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer eu gofal. Dyma rai ffeithiau penodol:

- *Roedd 94% yn fodlon gyda'u lleoliad a'r bobl yr oeddent yn byw â nhw*
- *Roedd 100% yn fodlon â'r trefniadau ysgol / coleg*
- *Roedd 97% yn teimlo eu bod yn gweld digon o'u ffrindiau neu'n cael help i wneud hynny / i wneud ffrindiau newydd*
- *Roedd 100% o blant iau wedi mynd â'u heiddo gyda nhw*
- *Roedd 90% yn teimlo bod ganddynt gyswllt digonol gyda'u gweithiwr cymdeithasol*

Roedd materion eraill yn dangos meysydd i'w hystyried, ac maent wedi cael eu dilyn ymlaen:

- *Roedd 78% yn teimlo bod ganddynt rywun i siarad â nhw neu'n gallu siarad â'u gweithiwr cymdeithasol, ond roedd 22% yn teimlo nad oeddent yn gallu siarad â'u gweithiwr cymdeithasol*
- *Roedd 71% o blant hŷn yn hapus â'r trefniadau cyswllt gyda'u teulu genedigol neu frodyr a chwiorydd ac er ei bod yn debygol bod sawl rheswm dros hyn roedd ymron i 30% ddim yn hapus – plant hŷn yn bennaf*
- *Roedd gan 38% o blant hŷn yn derbyn gofal broblemau gyda bwlian*
- *Roedd 18% o blant iau yn dweud nad oedd eu ffrindiau'n dod draw i chwarae / nad oedd eu ffrinidau'n cael dod draw i chwarae.*

**Ffigyrau plant yn derbyn gofal Merthyr Tudful 2009/10 tan 2013 / 2014**





Rydym wedi bod yn gweithio'n galed eleni i recriwtio mwy o ofalwyr maeth. O ganlyniad cafwyd cynnydd mewn datganiadau o ddiddordeb mewn dod yn ofalwr maeth ym Merthyr Tudful. Ar ddiwedd Mawrth 2014 roedd 29 asesiad yn gyfredol, ac yn ystod y flwyddyn cafodd 31 o Ofalwyr Maeth newydd eu cymeradwyo, gan roi 43 lleoliad; nifer o'r rhain yn lleoliadau gofal gan berthynas. Mae ychydig dros hanner (55%) plant sy'n derbyn gofal maeth yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth Merthyr Tudful.

Mae Rhaglen Gwelliant Cydweithredol De Ddwyrain Cymru (SEWIC) a Chonsortiwm Comisiwn Plant Cymru (4C) yn ein helpu i wneud trefniadau ar gyfer lleoliadau o ansawdd da sy'n gost effeithiol i blant sy'n derbyn gofal. Rydym wedi bod yn gweithio â SEWIC i ymchwilio'r ffordd orau o gwrdd ag anghenion plant sy'n derbyn gofal ym Merthyr Tudful

Rydym wedi cadw llygad barcud ar sefydlogrwydd lleoliadau ein plant sy'n derbyn gofal trwy sicrhau nad yw lleoliadau ac ysgolion ac ati yn cael eu newid oni bai nad oes unrhyw ddewis arall – mae ein perfformiad wedi gwella yn hyn o beth. Rydym yn bod yn rhagweithiol ac yn cyfathrebu'n well ac yn cynnal cyfarfodydd i roi cymorth cynnar yn ei le pan fyddwn yn gwybod ei bod yn bosib y bydd problemau'n codi. Rydym hefyd yn gweithio tuag at gyfraniad aml4asiantaeth mwy cadarn at hyn trwy'r Panel Atal a Sefydlogrwydd aml asiantaeth.

**Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn: 2009/10 tan 2013 / 2014**




*SCC/004 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn: 2009/10 tan 2013 / 2014*

## Sut mae'n teimlo i fod mewn Gofal Maeth?

*Rwy'n 13 ac wedi bod yn y system gofal ers oeddwn i'n 5. Roeddwn yn byw byda fy mam, chwaer a brawd. Rwy'n cofio'r noson gyntaf i mi ei dreulio oddi wrth fy nheulu. Roeddwn yn teimlo llawer o emosiynau, rhai yn ofnus a dryslyd. Mae fel dal y bws anghywir a chyrraedd yn y lle anghywir. Pan es i i'm cartref maeth cyntaf, oedd yn un o dri, rwy'n cofio fy ngweithiwr cymdeithasol yn mynd â fi i gwrdd â'r ddau ddieithryn hyn. Y cyfan roeddwn yn gallu meddwl amdano oedd fy mrawd a chwaer a lle'r oedden nhw'n mynd i fynd. Doeddwn i ddim ond gyda'r gofalwyr cyntaf am amser byr ond fe wnes fy hun yn gartrefol a dod yn rhan o'r teulu. Gan mai lleoliad maeth tymor byr oedd hwn fe ddaeth y gwasanaethau cymdeithasol o hyd i leoliad tymor hir i mi yn fuan wedyn.*

*Unwaith i mi symud i'r ail leoliad roeddwn yn nerfus er fy mod wedi symud o'r blaen, meddwl am symud eto oedd e'. Doedd fy mherthynas â'r gofalwyr ddim yn dda iawn ar y pryd felly symudais i'm trydydd lleoliad, yr un olaf ac rwyf wedi bod yma am bedair blynedd. Rwyf wedi setlo'n dda iawn ac wedi gwneud fy hun yn gartefol gyda theulu maeth anhygoel rwy'n gwybod fydd yn edrych ar fy ôl ac sy'n rhoi'r gofal i mi na allai fy nheulu biolegol ei roi.*

*Mae rhai pobl a theuluoedd yn dweud bod bod mewn gofal yn ddrwg i gyd, ond 'dyw e' ddim. Maen nhw'n rhoi'r hyn mae pob plentyn yn ei haeddu i chi, sef teulu a'r gofal sy'n dod gyda'r teulu hwnnw. Pan fyddaf yn ddeunaw oed rwy'n gwybod y gallaf edrych nôl ar yr atgofion gwych a gefais mewn gofal maeth ac i ddiolch i'r holl ofalwyr a edrychodd ar fy ôl i ac a roddodd nid yn unig to dros fy mhen ond cartref i mi.*

**Ysgrifenwyd gan Blentyn sy'n Derbyn Gofal 13 oed ym Merthyr Tudful.**

Roedd y Gwasanaeth Mabwysiadu'n asesu 8 mabwysiadwr posib ar ddiwedd y flwyddyn, ac roedd 20 o blant ar wahanol gamau o gael eu mabwysiadu. Mae 9 gorchymyn mabwysiadu wedi eu caniatáu ar gyfer plant Merthyr Tudful hyd yma eleni.

Rydym hefyd yn cymryd rôl arweiniol yn datblygu'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol a fydd yn weithredol erbyn Medi 2014. Bro Morgannwg fydd yn lletya'r rhaglen.

> ***Oeddech Chi'n Gwybod?***
>
> Dewisodd Tîm Mabwysiadu CBSMT 'Cartref a Theulu' fel ei thema yn y diwrnod cyfnewid mabwysiadu yn Tottenham ar y 23ain Ionawr. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol gyda 7 mabwysiadwr posib yn mynegi diddordeb mewn mabwysiadu plant CBSMT.

Rydym yn sicrhau bod gan y rhai sy'n gadael ein gofal a phobl ifanc hŷn gynlluniau mewn lle ar gyfer eu dyfodol y maen nhw wedi cyfrannu atynt ac y maen nhw'n cytuno â nhw. Ar 31ain Mawrth 2014, roedd cynllun mewn lle ar gyfer 75 o'r 77 person ifanc oedd i fod â chynllun mewn lle h.y. 97.4% ac roedd y 2 arall yn y broses o gael eu cwblhau. Mae hyn yn welliant ar ein perfformiad yn 2012 / 2013.

Gofynnir i bawb 16418 oed sy'n gadael ein gofal a fyddent yn hoffi dewis eu cynghorydd personol. Unwaith iddynt gyrraedd 18 oed mae cynghorydd personol yn cael ei ddyrannu iddynt gan Barnardos. Mae hon yn rôl fwy anffurfiol sydd wedi ei chynllunio i roi cymorth i rai sy'n gadael gofal gyda'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn dewis eu gofalwr maeth fel cynghorydd personol cyn iddynt gyrraedd 18, mae rhai pobl ifanc yn dweud mai'r rheswm dros hyn yw eu bod yn eu hadnabod yn dda. Ar ddiwedd Mawrth 2014, roedd gan 100% o bobl ifanc 16+ oed Gynghorydd Personol. Mae hyn ychydig yn well na'n perfformiad ni'r llynedd a oedd yn 98.8%.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal asesiad cyfredol o anghenion llety rhai sy'n gadael gofal, troseddwyr ifanc a phlant eraill mewn angen. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar gynllunio gwasanaeth gan yr adran dai a darparwyr eraill. Mae rhywfaint ychwanegol o lety â chymorth i bobl ifanc wedi cael ei ddatblygu ym Merthyr Tudful eleni. Enw'r prosiect yw 'Chaplins' ac mae'n cael ei reoli gan ADREF ac fe fydd ar gael yn ystod Mai 2014. Bydd llefydd yn cael eu dyrannu i bobl 16425 oed yn y Fwrdeistref trwy broses atgyfeirio.

Mae Merthyr yn un o'r safleoedd arloesol yng nghynllun 'Pan Fydda i'n Barod' Llywodraeth Cymru sy'n caniatáu i rai sy'n gadael gofal aros yn eu lleoliadau gofal maeth dan ryw fath o drefniant 'llety â chymorth', os yw'r gofalwr maeth a'r person ifanc yn cytuno. Yn ystod y cyfnod peilot, fel ar 31ain Mawrth 2014, mae 1 person ifanc wedi elwa ac mae'n bosib y bydd 10 arall yn gwneud yr un peth dros y ddwy flynedd nesaf.

## Cymorth i Blant ag Anableddau a'u Teuluoedd

Dros y 2 flynedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda theuluoedd i ddatblygu a rhoi'r Llwybr Cymorth Teuluol ar waith. Mae hwn yn fodel amgen, aml asiantaeth ar gyfer cwrdd ag anghenion plant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol.

Mae dogfen meini prawf cymhwyso diwygiedig drafft wedi cael ei dyfeisio i egluro'r llwybr atgyfeirio a'r broses trosglwyddo achos i'r Tîm Plant ag Anableddau ac mae ymgynghoriad wedi ei gynnal ar

y ddogfen. Mae hyn yn cael ei derfynu yn awr ar gyfer ei rhoi ar waith o Ebrill 1af 2014. Rydym yn adolygu'r gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu i blant ag anableddau i sicrhau eu bod yn cael eu targedu'n briodol ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

## *Oeddech Chi'n Gwybod?*

Mae un o'r Gweithwyr Cymdeithasol yn y Tîm Plant ag Anableddau wedi cael hyfforddiant yn y rhaglen 'Early Bird' sy'n rhoi cymorth i rieni plant iau ag Awtistiaeth. Mae adborth gan deuluoedd yn dynodi bod hwn yn fodel cadarnhaol a'i fod yn rhoi cymorth iddynt gyda'i rhianta.

Rydym yn parhau i annog defnyddio Taliadau Uniongyrchol fel ffordd hyblyg o gwrdd ag anghenion plant.

Ar ddiwedd Mawrth 2014, roedd y tîm plant anabl yn gweithio gyda 140 o blant a phobl ifanc ac roedd 76% o adolygiadau wedi eu cynnal ar amser. Mae'r broses asesu ac adolygu parhaol yn sicrhau bod cynlluniau'n gyfredol a bod cyfathrebu gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn digwydd yn gyson.

Byddwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r peilot gweithiwr allweddol y llynedd, er mwyn i ni benderfynu pa unai i ddatblygu gwasanaeth gweithiwr allweddol ai peidio.

Mae'r trosglwyddiad o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn gallu bod yn amser anodd. Mae gennym broses drosglwyddo sefydledig mewn lle ac ar ddiwedd Mawrth 2014, roedd gan 64 o blant a phobl ifanc anabl gynllun trosglwyddo mewn lle yn barod ar gyfer y symudiad hwn. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn cael cysondeb o ran cymorth wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn.

## Y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Mae ein Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn bodoli er mwyn sicrhau ble bynnag mae plentyn/person ifanc yn byw yng Nghwm Taf (Merthyr / RhCT), bydd ganddynt fynediad at wasanaethau Troseddau Ieuenctid a gwasanaethau atal effeithiol o ansawdd da. Mae ein gwaith i gyfuno gwasanaethau troseddau ieuenctid y ddau awdurdod lleol wedi parhau a'r dyddiad targed ar gyfer rhoi'r gwasanaeth newydd ar waith yw Gorffennaf 2014.

Hyd yn hyn, rydym wedi cynnal perfformiad da mewn perthynas â Dyfodiaid Cyntaf i'r system farnwrol ac mae'r cyfraddau o ran mynd i'r ddalfa wedi gostwng. Rydym wedi cynnal cyfraddau ail4droseddu, er eu bod yn dal yn gymharol uchel. Rydym wedi ymchwilio hyn ac mae hyn i raddau helaeth oherwydd niferoedd bach sy'n troseddu'n ailadroddus gyda throseddau risg uchel mewn cymhariaeth â gweddill de Cymru.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyddiannus â phobl ifanc i gael eu barn ar wasanaethau cyfredol ac i ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol i rai sy'n gadael gofal a phobl ifanc hŷn. Roedd adborth yn arbennig o gadarnhaol mewn perthynas â gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Dywedodd un bachgen 16 oed ei fod ***'yn hapus gyda'r cymorth gan y YOS yn ennill ei gymhwyster Cynllun Ardystiad Sgiliau Adeiladu'*** . Dywedodd person ifanc arall ***'Roedd YOS yn dda. Roedden nhw'n gwrando arna'i'.***

# Blaenoriaethau ar gyfer Gwella a Newid

Mae'r meysydd ar gyfer gwella yn ystod 2014/15 a nodir isod yn cefnogi'r blaenoriaethau canlynol a nodwyd yn y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Merthyr Tudful 2013 – 2017:

| Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful Prif Ganlyniad | Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful Maes Blaenoriaeth |
|---|---|
| Bod pobl sy'n byw a gweithio ym Merthyr Tudful yn derbyn cymorth i fyw bywyd mwy iach a mwynhau gwell ansawdd bywyd. | **Cwrdd ag Anghenion Plant Agored i Niwed**4 Plant a Phobl Ifanc sydd angen cymorth yn derbyn gwasanaethau i gwrdd â'u hanghenion.<br><br>**Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol =** Plant, pobl ifanc ac oedolion ym Merthyr Tudful yn mwynhau gwell iechyd meddwl a lles.<br><br>Mae "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl" a Llwybr Cymorth i'r Teulu hefyd yn cael eu diffinio'n glir o fewn y rhan hwn o'r Cynllun Integredig Sengl. |
| Bod pobl yn mwynhau lle bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. | **Rheoli Troseddwyr** – Pobl ym Merthyr Tudful yn cael eu hamddiffyn rhag gweithredoedd ad4 droseddwyr<br><br>Rôl y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi ei ddiffinio'n glir o fewn y rhan hwn o'r Cynllun integredig Sengl. |

| Meysydd ar gyfer Gwella yn ystod 2014 / 2015 |
|---|
| **Parhau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n gwella lles plant a theuluoedd ag anghenion cymhleth** |

**I wneud hyn byddwn yn:**

- Cytuno ar ddull gweithio i'r Gwasanaethau Cymorth Teuluol Dwys sy'n cynnwys y Tîm Cymorth Dwys Teuluol presennol, Canolfan Deuluol Gellideg a'r Gwasanaeth Gwell ar gyfer Plant mewn Angen, a'i roi ar waith.
- Gwella ffocws cynllunio sefydlogrwydd i blant mewn angen.
- Dechrau paratoi ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles sydd ar ddod
- Sicrhau Strategaeth Comisiynu glir a chyfredol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i blant.
- Rhoi cynllun effeithlonrwydd ar waith i'r gwasanaeth ac ail lunio gwasanaeth yn ôl yr angen.
- Parhau i hybu canlyniadau da a sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn derbyn gwasanaethau i gwrdd â'u hanghenion.
- Sicrhau bod plant ag anableddau yn derbyn gwasanaethau i gwrdd â'u hanghenion.
- Parhau i adolygu anghenion hyfforddiant a datblygiad y gweithlu.

**Y canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fydd:**

- Gwell ystod o wasanaethau o ansawdd sy'n cwrdd â'ch anghenion yn well, sydd o ansawdd da ac sy'n cynnig gwerth am arian.
- Gwell dealltwriaeth gyhoeddus a phroffesiynol o'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

## Gwella cyfranogiad plant a theuluoedd yn cytuno ar gynlluniau a deilliannau ein gwaith gyda nhw

**I wneud hyn byddwn yn:**

- Parhau'r prosiect Fframwaith Canlyniadau a rhoi'r agwedd ar waith ar draws y gwasanaeth cyfan.
- Datblygu ffyrdd o sicrhau bod y Fframwaith yn cynorthwyo adrodd ar berfformiad yn unol â disgwyliadau a sicrhau ansawdd diwygiedig Llywodraeth Cymru.

**Y canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fydd:**

- Cynlluniau wedi eu datblygu gyda chi sy'n dangos yn eglur beth yw'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni.
- Cynlluniau sy'n hawdd eu defnyddio ac yn eich helpu i ddeall yr hyn sy'n ddisgwyliedig gennych chi a pha gymorth yr ydych yn ei dderbyn.
- Mwy o gyfleoedd i chi ddweud wrthym ni beth yw eich barn am wasanaethau a sut y gallwn barhau i wella ein gwasanaethau.

## Bydd cyfleoedd sy'n cael eu creu trwy weithio mewn partneriaeth yn ein helpu ni i wella ystod, ansawdd a phrydlondeb gwasanaethau.

**I wneud hyn byddwn yn:**

- Rhoi Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf ar waith.
- Rhoi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol ar waith fel rhan o Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru.
- Parhau gyda gwaith datblygu i greu Canolfan Ddiogelu Aml4asiantaeth Cwm Taf
- Parhau i weithio gyda Rhaglen Welliant Cydweithredol De4ddwyrain Cymru (SEWIC) ar fentrau rhanbarthol i gynorthwyo'r Gwasanaeth Maethu.

**Y canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fydd:**

- Bydd cyfleoedd sy'n cael eu creu trwy weithio mewn partneriaeth yn ein helpu ni i wella ystod, ansawdd a phrydlondeb y gwasanaethau sydd ar gael i chi.

# Sut ydw i'n cael gwybodaeth bellach?

Os oes angen gwybodaeth fwy manwl arnoch mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni fel a ganlyn:

**Ffôn**: (01685) 724693

**Ebost**: ACRF@merthyr.gov.uk

**Ysgrifennwch at:** Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN